



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Comfort Care Homes (Bryn Illtyd) Ltd**

**Cartref Preswyl Bryn Illtyd  
Heol Y Mynydd Pen-bre  
Porth Tywyn  
SA16 0AJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

29/03/2021

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.**

*Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Comfort Care Homes (Bryn Illtyd) Ltd

|  |  |
|--|--|
| Y math o ofal a ddarperir  | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Oedolion Heb Ofal Nyrsio |
| Darparwr Cofrestredig  | Comfort Care Homes (Bryn Illtyd) Ltd                 |
| Lleoedd cofrestredig   | 39   |
| Iaith y gwasanaeth   | Saesneg  |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru                                |  |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy  |

## Crynodeb

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Maent yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a bod eu barn yn cael ei hystyried; maent yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r staff gofal yn gweithio yn unol â'r cynlluniau personol a gaiff eu llunio ar y cyd â'r bobl sy'n byw yn y cartref, eu teulu, y staff a rheolwr y gwasanaeth.

Mae'r bobl sy'n byw yng Nghartref Gofal Bryn Illtyd yn derbyn gofal a chymorth gan staff sy'n ymrwymedig i wneud gwahaniaeth cadarnhaol, ac sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi gan y tîm rheoli.

Mae'r staff gofal yn llawn cymhelliant, yn darparu ar gyfer dewisiadau'r bobl, yn gyfeillgar ac yn gallu cyfathrebu â'r bobl yn eu dewis iaith, gan fod llawer o'r staff yn siarad Cymraeg a Saesneg. Mae gan y staff gofal wybodaeth dda am eu rolau a'u cyfrifoldebau a dealltwriaeth dda ohonynt, gan gynnwys diogelu a rheoli heintiau. Fodd bynnag, mae bylchau mawr yn y cofnodion hyfforddiant ac nid ydynt yn gyfredol.

Nid yw cofnodion gofal na chofnodion dyddiol yn cael eu cwblhau'n gyson gyda'r wybodaeth ofynnol.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau bob dydd. Gwelsom y darparwyd dewis o ran ble roedd y bobl am dreulio eu hamser, yr hyn roeddent am ei wneud a dewisiadau bwyd. Roedd gan bob un o'r ffeiliau gofal a welsom dudalen flaen a oedd yn nodi gwybodaeth allweddol am ddulliau cyfathrebu, anghenion/cymorth gofynnol, hoff bethau, cas bethau, beth/pwy sy'n bwysig i mi.

Gwelsom fod gan y bobl lais a'u bod yn cyfrannu at eu dewisiadau a'u syniadau unigol. Roedd hyn yn glir yn yr adroddiadau ar ansawdd y gofal a ddarllenwyd. Dywedodd y bobl eu bod yn teimlo'n ddiogel a *“the staff go out of their way to make sure we are comfortable and happy”* (mae'r staff yn gwneud ymdrech i wneud yn siŵr ein bod yn gyfforddus ac yn hapus).

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth. Mae hyn oherwydd bod gan y gweithwyr gofal wybodaeth dda am ddiogelu a phwysigrwydd rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rôl wrth ddiogelu'r bobl rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Siaradodd y gweithwyr gofal yn dosturiol am y bobl sy'n byw yn y cartref a sut mae pandemig COVID-19 wedi effeithio arnyn nhw a'u teuluoedd.

Efallai nad yw amgylchiadau unigol y bobl yn cael eu hystyried, gan nad yw gwybodaeth yn cael ei chadw'n dda, yn gyfredol nac yn cynnwys anghenion gofal presennol. Yn ogystal, gwelwyd nad oedd yr hyfforddiant yn ddigonol a gall gyfrannu at y bobl yn methu â chael y gofal mwyaf priodol.

Ni all y bobl fod yn sicr bod y staff gofal yn cael yr hyfforddiant gofynnol a chyfredol i ddiwallu eu hanghenion unigol ac i'w cefnogi. Mae hyn oherwydd bod bylchau yn y cofnodion hyfforddiant, er bod gan y staff wybodaeth dda am eu rolau.

## Gofal a Chymorth

Caiff asesiadau eu cwblhau ar gyfer pob person i sicrhau mai Bryn Illtyd yw'r gwasanaeth cywir i ddiwallu ei anghenion. Roedd yr asesiadau yn cynnwys asesiad o iechyd corfforol ac iechyd meddwl yr unigolyn, yn ogystal ag asesiadau risg cyfredol a oedd yn helpu'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae hyn yn cynnwys lle mae rhywun yn wynebu risg o gwmpo am ei fod yn llai ymwybodol o'r hyn sydd o'i gwmpas.

Caiff cynlluniau personol eu datblygu ar y cyd â'r unigolion a'u teuluoedd. Caiff y cynlluniau gofal eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd neu pan fydd anghenion yr unigolyn yn newid, ond mae angen gwella eglurdeb a throsolwg o'r wybodaeth.

Nid yw'r gwasanaeth bob amser yn rhagweithiol wrth nodi a monitro risgiau. Nid yw'r nodiadau dyddiol a welsom yn cael eu cwblhau'n gyson, ac nid oedd unrhyw gofnodion yn ystod y bore na gyda'r nos mewn dros hanner y nodiadau dyddiol. Un enghraifft o hyn oedd bod un cynllun personol yn nodi y dylid sicrhau bod yr unigolyn yn iawn yn ystod y nos ond nid oedd unrhyw gofnod o hyn yn digwydd.

Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu, a rhoddir dewis a rheolaeth iddynt. Dywedodd y bobl, *"I like that I am asked what I want to wear"* (Rwy'n hoffi bod y staff yn gofyn i mi beth rwyf am ei wisgo) ac *"I am asked what I would like to do, which I like"* (Gofynnir i mi beth rwyf am ei wneud, ac rwy'n hoffi hynny).

Nid yw'r archwiliadau na'r systemau rheoli meddyginiaeth bob amser yn nodi gwallau. Wrth edrych ar Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth (MARs) wedi'u cwblhau mewn ffeiliau unigol, nid oedd dyddiad dechrau ar y daflen. Dylai archwiliad meddyginiaeth y cartref ei hun fod wedi sylwi ar hyn.

Nid yw'r wybodaeth sydd ar gael i'r bobl bob amser yn gyfredol a/neu'n gywir. Gwnaethom edrych ar nifer o bolisiâu, gan gynnwys Diogelu, Meddyginiaeth, rheoli heintiau, derbyniadau, iechyd a diogelwch, a'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Adolygwyd y polisiâu'n rheolaidd ond gwelsom fod gwallau ynddynt, ynghyd ag iaith anghyson, e.e. cyfeirir at y bobl fel preswylwyr ac wedyn fel cleifion yn yr un ddogfen, ac nid oedd y wybodaeth yn cynnwys y gweithdrefnau cyfredol. Felly, mae angen gwneud gwelliannau sylweddol i'r ffordd y caiff polisiâu, canllawiau a gweithdrefnau eu monitro a'u hadolygu er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol, a'i bod yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn cynnal archwiliadau a gwiriadau lechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo a'r cyfarpar a ddefnyddir. Gwelsom fod yr archwiliadau yn fanwl a chânt eu cwblhau yn ôl yr angen ond, pan nodir lle mae angen gwneud gwaith, nid oes cofnod o'r gwaith yn cael ei gwblhau na dyddiadau pryd y caiff ei gwblhau. Felly, wrth edrych ar wiriadau ac archwiliadau iechyd a diogelwch, nid oedd yn glir a oedd y gwaith wedi cael ei gyflawni neu ei wirio gan y tîm rheoli.

Yn ystod sgysiau â'r staff, gwnaethant ddweud, *"it's good anything that needs doing management are great at getting on and doing it"* (Mae'n dda – mae'r tîm rheoli'n wych am fwrw ymlaen ag unrhyw beth y mae angen ei wneud), *"We have a maintenance book that staff leave messages in so any problems can be looked into and fixed"* (Mae gennym lyfr cynnal a chadw y mae'r staff yn gadael negeseuon ynddo fel y gellir ymchwilio i unrhyw broblemau a'u datrys).

Mae'r cartref yn groesawgar ac mewn cyflwr da. Mae'r arferion glanhau yn y cartref wedi newid i ystyried mesurau glanhau ychwanegol o ganlyniad i COVID-19. Yn ystod sgysiau â'r staff, gwnaethant ddweud *"management gave us clear instructions on what was needed. They were great at keeping us up to date with information e.g. when the cleaning routine had to be changed/updated to include the new covid cleaning requirements"* (Rhoddodd y tîm rheoli gyfarwyddiadau clir i ni am yr hyn roedd ei angen. Roedd yn wych am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni, e.e. pan fo'n rhaid newid/diweddaru'r drefn lanhau i gynnwys y gofynion newydd yn ymwneud â COVID-19).

Gwelsom gofnodion o wiriadau cynnal a chadw, gan gynnwys cyfarpar codi a chario a phroffion diogelwch tân; caiff y rhain eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol.

## Arwain a Rheoli

Mae gan y darparwr drefniadau ar waith sy'n helpu i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n dda, yn ogystal â datblygiad parhaus, ond mae angen gwella hyn. Cadarnhaodd y rheolwr fod yr unigolyn cyfrifol mewn cyswllt rheolaidd â'r cartref, ac yn gefnogol o'r tîm rheoli a'r staff gofal. Gwelsom gofnodion o ymweliadau'r unigolyn cyfrifol a'r adroddiadau a gwblhawyd.

Gwelsom fod yr adroddiadau o ansawdd y gofal a chofnodion rheoliad 73 yn glir ac yn ystyried barn y bobl sy'n byw yn y cartref, eu teulu a'r staff gofal. Mae gan yr unigolyn cyfrifol ddealltwriaeth dda o'r gwasanaeth, a barn ac anghenion y bobl, a gwybodaeth dda amdanynt. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i'r ffordd y caiff y broses o reoli'r gwasanaeth ei goruchwylio, er mwyn sicrhau bod pob archwiliad yn y cartref yn cael ei gwblhau yn ôl yr angen, a bod adolygiadau o bolisïau a dogfennau'n cael eu cwblhau i'r safon ofynnol.

Yn ystod sgrysiâu â'r staff, gwnaethant ddweud, *“Supervision is good it is an equal share of time, management have what they have to say and I get to say what I need to say. That’s the way it should be so it’s good”* (Mae'r sesiynau goruchwylio yn dda. Caiff yr amser ei rannu'n gyfartal – mae'r tîm rheoli yn dweud yr hyn y mae am ei ddweud a dwi'n cael dweud yr hyn rwyf angen ei ddweud. Dyna'r ffordd y dylai fod, felly mae'n dda).

*“Management made sure we had the PPE we needed and have been great in the support and information during the last year. We all pulled together to get through the pandemic”* (Mae'r tîm rheoli wedi gwneud yn siŵr bod gennym y cyfarpar diogelu personol (PPE) roedd ei angen arnom ac maent wedi bod yn wych am roi cymorth a gwybodaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae pob un ohonom wedi cyd-dynnu i ddod drwy'r pandemig).

*“The training and support is good, management are easy to talk to and supportive”* (Mae'r hyfforddiant a'r cymorth yn dda. Mae'n hawdd siarad â'r tîm rheoli ac mae'n gefnogol iawn).

*“I feel that the care staff and seniors work well together, management is a separate level and as I don’t work with them a lot I feel more comfortable to go to a senior”* (Mae'r staff gofal a'r uwch-ofalwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, yn fy marn i. Mae'r tîm rheoli ar lefel ar wahân, ac oherwydd nad wyf yn gweithio gyda nhw llawer, rwy'n fwy hyderus yn mynd i uwch-ofalwr).

Yn ystod sgrysiâu a gafwyd â'r staff gofal, roedd yn glir eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol, ond roedd rhai o'r staff yn teimlo'n fwy hyderus yn siarad ag uwch-ofalwr, gan eu bod yn fwy gweladwy a chyfarwydd i'r staff gofal.

---

Nid yw'r unigolyn cyfrifol na'r rheolwr yn sicrhau bod yr hyfforddiant gofynnol ar gyfer y staff gofal yn cael ei gynnal ac yn gyfredol. Gwnaethom siarad â staff gofal amrywiol yn y cartref y mae pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant sefydlu, ac mae ganddynt wybodaeth glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau, a dealltwriaeth dda ohonynt. Dywedodd y gweithwyr gofal *"We have a lot of training which is good"; it is all online at the moment due to the pandemic* (Rydym yn cael llawer o hyfforddiant sy'n dda; mae'r cyfan ar-lein ar hyn o bryd o ganlyniad i'r pandemig). Fodd bynnag, nid adlewyrchir hyn yn y cofnodion hyfforddiant. Nid yw'r wybodaeth a gaiff ei dogfennu yn glir, yn gywir nac yn gyfredol. Caiff hyfforddiant ei fonitro drwy sesiynau goruchwyllo a'r matrices hyfforddiant. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i'r ffordd y caiff hyfforddiant y staff ei gofnodi, ei fonitro a'i archwilio, er mwyn sicrhau bod modd diwallu anghenion gofal unigol y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.



**Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni**

**Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni**

Caiff meddyginiaeth ei storio'n anghywir.

Os na fydd darparwyr yn llwyddo i wella, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Os na fydd darparwyr yn llwyddo i weithredu â blaenoriaeth, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi

**Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth**

Dim

**Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau**

Nid yw ffeiliau gofal unigol yn cael eu cwblhau'n gyson, yn glir, yn gywir ac nid ydynt yn cynnwys y wybodaeth gyfredol sydd ei hangen i gefnogi anghenion gofal unigol.

Rheoliad 21(1)

Nid yw'r darparwr gwasanaeth yn cadw cofnod clir o'r hyfforddiant craidd na'r hyfforddiant arbenigol sy'n ofynnol i gefnogi'r bobl yn y gwasanaeth

Rheoliad 36(2)(d)

Nid yw'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod cynnwys y polisiau a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol iddynt fod ar waith yn cael ei ddiweddarau i gynnwys y wybodaeth gywir.

Rheoliad 12(4)(c)

Mae angen gwella'r maes/meysydd a nodir uchod, ond nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar yr achlysur hwn. Mae hyn am nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

**Dyddiad Cyhoeddi 02/06/2021**